



Polisi Gosod Targedau

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*



Polisi Gosod Targedau

‘ Sicrhau fod Pob Plentyn yn Cyrraedd eu Potensial’

Disgwylir i bob athro osod targed i bob disgybl ymhob pwnc

Methodoleg a rhesymeg gosod targedau Unigol / Pynciol / Ysgol Gyfan yn Ysgol Dyffryn Conwy.

- ✓ Bydd athrawon yn defnyddio eu barn broffesiynol i osod targed ar sail eu hadnabyddiaeth o allu'r disgybl
- ✓ Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth flaenorol am gyrhaeddiad y disgybl (e.e. Lefel diwedd Cyfnod Allweddol)
- ✓ Dylai pob athro gymryd i ystyriaeth rhagfynegiadau FFT, gan gymryd y model mwyaf heriol o FFT Math D , 25%
- ✓ Petai athro yn dymuno gosod targed sy'n is na rhagfynegiad FFT yna dylai'r athro nodi hyn wrth y Pennaeth Adran fydd wedyn yn gorfod trafod y mater gydag aelod cyswllt yr UDRh
- ✓ Mae angen i bob targed fod yn heriol a chyraeddadwy, ond hefyd dylid edrych ar gymharu perfformiad targed y Pwnc a'i effaith ar ddangosyddion Ysgol Gyfan yn erbyn yr heriau canlynol: i) Gosod targed uwchlaw'r canolrif ar sail meincnodau PYD C1 0-10% ii) Uwchlaw cyfartaledd y Teulu SDC ac o fewn y tri uchaf o fewn y teulu iii) Uwchlaw'r llinell Atchwel a pherfformiad disgwylidig.
- ✓ Yn dilyn pob asesiad, bydd Rheolwyr Dysgu a Chynnydd yn monitro a thracio cyrhaeddiad yn erbyn eu targedau.
- ✓ CA3: Gosodir targed yn nhymor 1 Blwyddyn 7 gyda chyfle i wirio unwaith yn nhymor yr Hydref blwyddyn 8 o dan amgylchiadau arbennig.
- ✓ CA4: Bydd targed yn cael ei osod yn nhymor 1 Blwyddyn 10. Ni all y targed hwn gael ei ostwng yn ystod blwyddyn 10. Gall y targed gael ei addasu ym Mlwyddyn 11 yn dilyn arholiadau allanol, ee cwblhau Gwyddoniaeth A.
- ✓ CA5: Mae targed yn cael ei osod yn ystod hanner tymor cyntaf Blwyddyn 12 ar sail ALPS ac ymwybyddiaeth yr athro. Mae hyn yn cyd fynd a disgwyliadau rhanbarthol GWE ac yn gosod targed uchelgeisiol.